David Livingstone: 1813-1873

"Dr Livingstone, mae'n debyg?"

Anturiaeth / dewrder / gweledigaeth

Cododd o'i wely heb ddim brecwast a chychwyn am y ffatri. Chwech o'r gloch y bore oedd hi! Gwyddai y byddai yno drwy'r dydd hyd ddeg neu un ar ddeg o'r gloch y nos. Dyna oedd bywyd iddo am chwe diwrnod yr wythnos. Gwell fyddai ganddo fynd am dro i chwilio am nythod adar a physgota efo llaw ar lan yr afon. Ond dyna oedd plant yr ardal i gyd yn ei wneud, gweithio yn y gwaith cotwm o fore gwyn tan nos. Gwyddai'n iawn beth oedd gwaith caled. Tybed a oedd deg oed yn rhy ifanc i weithio oriau hirion? Ond doedd dim dewis. Y ffatri amdani!

I gyfnod fel hyn y ganed David Livingstone. Dywedodd, ar ôl iddo dyfu i fyny, fod y caledi yma wedi bod yn rhan bwysig o'i fywyd. "Petawn i'n dechrau ar fy mywyd unwaith eto mi fuaswn i'n hoffi cael fy nwyn i fyny yn y ffordd anodd yma." Ond doedd hi ddim yn waith i gyd yn y cyfnod cynnar hwnnw. Câi gyfle i astudio. A bu hynny'n help mawr iddo gan iddo gael ei ddewis gan Gymdeithas Genhadol Llundain i baratoi ar gyfer bod yn genhadwr.

Ar ôl cwblhau ei waith yn y Ganolfan Genhadol, fe'i hanfonwyd i Affrica. Bryd hynny y "cyfandir tywyll" oedd Affrica. Ychydig iawn o ddynion gwyn oedd wedi troedio'r cyfandir hwn. Ar ei daith gyntaf, croesodd ar draws Affrica o Angola yn y Gorllewin i Mozambique yn y Dwyrain. Dilynodd gwrs yr afon Zambezi o'i tharddiad i'r aber lle llifa'r afon i'r môr. Roedd llawer o drigolion yr ardaloedd hyn yn barod i'w helpu a byddai yntau'n gofalu amdanyn nhw â gofal mawr. Er ei fod yn cofnodi'n fanwl bob agwedd o'r daith gan fanylu ar yr elfennau gwyddonol, y peth pwysig iddo bob amser oedd mai cenhadwr yn enw Iesu Grist ydoedd.

Trwy gydol ei fywyd fel cenhadwr roedd un peth yn peri cryn bryder iddo. Caethwasiaeth. Ceisiodd ddysgu'r brodorion i dyfu cnydau ac i wneud defnydd o'u fforestydd yn hytrach na manteisio ar wendid eu cymdogion a'u gwerthu fel caethweision. Ceisiodd eu dysgu yn y ffordd Gristnogol i weld fod pob unigolyn

yn blentyn i Dduw. Yn ei farn ef, doedd gan neb hawl i drin pobl fel caethweision. Ond yn araf deg iawn roedd y gwaith yn mynd yn ei flaen. Yng nghanol ei lafur a'i ddycnwch cafodd gomisiwn gan lywodraeth Prydain i anturio yng nghanolbarth a dwyrain y "cyfandir tywyll".

Daliodd ati i frwydro yn erbyn caethwasiaeth ond bellach roedd ganddo nod arall, sef chwilio am darddiad yr afon Nîl. Erbyn hyn, roedd dros ei hanner cant a doedd ynni ei ieuenctid ddim ganddo. Wynebodd wrthwynebiad bob cam o'r daith. Credai pawb ei fod wedi marw. Anfonodd papur newydd Americanaidd griw dan arweiniad John Rowlands i chwilio amdano. Cymro, a gafodd ei fagu mewn tloty yn Llanelwy, Gogledd Cymru, oedd Rowlands. Fe'i mabwysiadwyd gan Americanwr o'r enw Henry Stanley. Cymerodd Rowlands ei enw newydd oddi wrth ei dad mabwysiadol. Ac mewn lle o'r enw Vjiji ar lan Llyn Tanganyika y daeth Stanley ar draws Livingstone. Mae'r cyfarchiad yn fyd-enwog, "Dr Livingstone, mae'n debyg?" Roedd Livingstone yn fyw ac yn iach.

Ymhen deunaw mis ar ôl y cyfarchiad enwog hwn roedd Livingstone wedi marw. Daethpwyd â'i gorff i Abaty Westminster, Llundain, i'w gladdu.

"Bwrw dy dynged ar yr Arglwydd, ymddiried ynddo, ac fe weithreda."

Salm 37:5

O Dduw, dydw i ddim yn gwybod dim am galedi bywyd.
Mi ydw i wedi fy magu ar aelwyd gysurus,
Yn cael digon o fwyd,
Yn cael addysg yn yr ysgol,
Yn cael chwarae efo ffrindiau.
Paid â gadael i mi anghofio am y rheiny
sy'n gorfod wynebu caledi bob dydd o'u hoes.
Amen.

Sut y byddech chi'n teimlo petaech yn gorfod wynebu caledi mewn bywyd?
Beth fuasai "caledi" i chi?